OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 542 (Cy. 128)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

Gwnaed	*13 Mai 2022*
Yn dod i rym	*16 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 16 Mai 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Mai 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru